Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Gwyddonydd Data Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Gwyddor Data Poblogaethau |
| **Cyflog:** | Gradd 8: £39,355 to £45,413 y flwyddyn |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos (100% CALl) neu fel secondiad |
| **Nifer y swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Dyma swydd am gyfnod penodol o 9 mis tan 31 Mawrth 2027 |
| **Lleoliad:** | Swydd hybrid fydd hon, a bydd y swyddfa ar Gampws Singleton. |

**Prif Ddiben y Swydd**

Gwahoddir ceisiadau am swydd Gwyddonydd Data Ymchwil ym mhrosiect CONNECT-AF, sy'n rhan o astudiaeth dadansoddeg ffederal DARE-UK o strôc ac emboledd systemig mewn pobl â ffibriliad atrïaidd ledled Cymru a dwyrain Lloegr.

Ymunwch â thîm ymchwil amlddisgyblaethol uchel iawn ei fri sy'n rhan o'r grŵp Gwyddor Data Poblogaeth yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe i gynnal dadansoddeg ffederal o ganlyniadau cardiofasgwlaidd. Mae'r swydd yn cynnig cyfle i gyfrannu at weithio gyda'r potensial i wella gofal i bobl â ffibriliad atrïaidd, cynyddu'r defnydd o wrthgeulo, a llywio polisi ac ymarfer sy'n ymwneud â diagnosis cynharach ac atal. Mae'r prosiect yn soffistigedig yn ei ddull ystadegol a thechnegol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n rheolaidd gyda data ar lefel y boblogaeth ac yn adeiladu asedau data cadarn sy'n barod am ymchwil a phiblinellau dadansoddol o fodelu aml-wladwriaeth o ddata ffibriliad atrïaidd i'w gweithredu ar draws y tri Amgylchedd Ymchwil Dibynadwy sy'n rhan o'r prosiect ffederal hwn. Fel rhan o'r esiampl DARE-UK, byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr ledled y DU ac yn cael profiad uniongyrchol o ddadansoddeg ffederal. Gallwch ddarllen rhagor am hyn yma. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

1. Gweithio gyda data iechyd a gesglir yn rheolaidd ar raddfa fawr yn y tri amgylchedd ymchwil dibynadwy: Banc Data SAIL, Amgylchedd Data Diogel Dwyrain Lloegr, a Dementias Platform UK.
2. Datblygu a churadu setiau data cysylltiedig ar gyfer ffenoteipio dwfn ac e-garfannau sy'n gysylltiedig â ffibriliad atrïaidd, â metadata a dogfennaeth cysylltiedig.
3. Cynnal modelu aml-gyflwr ar gyfer pob e-garfan a chyfrannu at ddatblygu fframwaith wedi'i gynwysyddeiddio i'w gyflwyno drwy'r pum platfform ffederal Safe-TES fel rhan o TREvolution.
4. Cyfrannu at weithgarwch ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dehongli data, a chyflwyno canfyddiadau mewn fformatau sy'n addas i'r prosiect a'i gynulleidfaoedd.
5. Paratoi adroddiadau, cyhoeddiadau, ac allbynnau ymchwil eraill sy'n deillio o'r prosiect, gan gynnwys deunydd ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu at baratoi a chyhoeddi papurau ymchwil fel rhan o'r rôl.
6. Gweithio mewn modd trefnus a phroffesiynol, gan ddefnyddio barn gadarn, nodi dulliau addas o dasgau prosiect, a cheisio mewnbwn pan fo angen.
7. Cymhwyso dulliau clir a gofalus o ddehongli data ymchwil ac adrodd canfyddiadau.
8. Cynnal perthnasoedd gwaith effeithiol a phroffesiynol gyda chydweithwyr a phartneriaid yn y Gyfadran, ar draws y Brifysgol, a chyda sefydliadau allanol gan gynnwys lleoliadau academaidd, cyhoeddus a phartneriaid eraill.
9. Cyfrannu at ddatblygu ceisiadau cyllid ymchwil sy'n ymwneud â'r prosiect, y tîm ehangach, a'r Gyfadran. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu at baratoi ceisiadau o'r fath fel rhan o'r rôl.
10. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a chodi ei phroffil ymchwil allanol.

| | |
|---|---|
| | 11. Dilyn y datblygiadau diweddaraf yn y maes, gan gynnwys datblygiadau technegol a rhai sy'n benodol i'r pwnc, ac ystyried eu perthnasedd i ymchwil, ymarfer, a budd ehangach.<br>12. Pan ofynnir amdano, cymryd rhan mewn pwyllgorau neu grwpiau ffurfiol eraill fel rhan o ddatblygiad proffesiynol a chyfraniad y Gyfadran.<br>13. Dangos eich datblygiad proffesiynol eich hun a darparu tystiolaeth ohono, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, adolygiadau perfformiad, a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>14. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff perthynol eraill.<br>15. Ufuddhau i brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod cofnodion llyfrau log prosiectau yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl gorffen y gwaith. |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | 16. Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>17. Cyflawni'r holl ddyletswyddau yn unol â pholisïau a systemau rheoli diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd, gan helpu i leihau risgiau ac effeithiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith.<br>18. Sicrhau bod ymwybyddiaeth o risg yn rhan o arferion gwaith arferol drwy gydymffurfio â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>19. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r rôl fel y'u nodir gan y Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. PhD neu gymhwyster ôl-raddedig cyfatebol mewn ystadegau, gwyddor data, iechyd y cyhoedd neu ddisgyblaeth gysylltiedig.<br>2. Tystiolaeth o gyfranogiad gweithredol a rôl bersonol wrth ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, a chyfrannu at y gwaith hwn, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid.<br>3. Tystiolaeth o'r gallu i gymryd rhan weithredol mewn cynllunio ymchwil ac ysgrifennu protocolau ymchwil a/neu geisiadau am gyllid ymchwil allanol neu gyfrannu at y gwaith hwn.<br>4. Y gallu i ddangos annibyniaeth sylweddol o ran ffocws a chyfeiriad mewn ymchwil – penderfynu 'beth, pam, pryd a chyda phwy' i fwrw ymlaen â'r gwaith.<br>5. Sgiliau rheoli prosiect a phrofiad o reoli prosiect ymchwil neu waith tebyg.<br>6. Dangos dealltwriaeth o gysyniadau cronfeydd data perthynol a phrofiad o'u defnyddio, gan gynnwys tystiolaeth o'r gallu i adeiladu a defnyddio ymholiadau SQL cymhleth i holi data mawr cymhleth.<br>7. Profiad o weithio gyda data cysylltiedig mawr iawn. Yn benodol, wrth weithio gyda data arferol fel data iechyd neu weinyddol.<br>8. Tystiolaeth o'r gallu i gynnal dadansoddiad priodol ar setiau data mawr gan ddefnyddio iaith ystadegol/raglennu megis R neu Python.<br>9. Sgiliau cyfathrebu da ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>10. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br>11. Dangos dealltwriaeth o eiriau codio clinigol a'u defnydd yn y GIG.<br>12. Yn gyfarwydd â chysyniadau peirianneg meddalwedd ymchwil.<br>13. Profiad neu wybodaeth o epidemioleg gardiofasgwlaidd ac epidemioleg y boblogaeth.<br>14. Profiad o gynnal dadansoddeg ffederal.<br>15. Meddu ar rif ymchwilydd diogel gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. |

| | |
|---|---|
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Lefel 1 – 'ychydig' – ynganu geiriau Cymraeg Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd syml iawn (diolch, os gwelwch yn dda, etc.). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Fatemeh Torabi – Fatemeh.torabi@abertawe.ac.uk |